

Cymdeithas Bob Owen

Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 60

Pris i aelodau: £7.50 y flwyddyn
Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn

Haf 1997

ARGYFWNG!

I SICRHAU PARHAD Y
CYLCHGRAWN MAE'N
HANFODOL EICH BOD YN
TALU UNRHYW DANYSGRIFIAD
SY'N DDYLEDUS AR FYRDER.

(Gweler rhaglen atodol y tu mewn)

DAFYDD GUTO ar drywydd ychwaneg o Gardiau Post Darluniadol yn ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru

'Ychydig iawn o gardiau post a welais ar werth sy'n dal rhyw gyswllt neu'i gilydd â'r Brifwyl.' Dyna'n wir beth a ddywedais yn *Y Casglwr*, rhifyn Nadolig 1992, tud. 20.

Fel y cofiwch, yr adeg hynny, mai rhif y cardiau post Eisteddfod Genedlaethol yng nghasgliad Tan-y-ffordd bryd hynny oedd 11; bellach mae'r cyfanswm yn 24; cynnydd fel y gwelwch o 13 c.p.d. Bob yn fesul tipyn, yntê; dyfal donc, ie!

Beth yw rhif casgliad cardiau post darluniadol Tan-y-ffordd erbyn hyn meddech chwi? Ar y cyfri' mawr diwethaf mae yma 3,872 c.p.d. A rhoddaf gan hynny ar ddeall i'r genedl Gymreig mai fy mwriad yw trosglwyddo'r casgliad bychan hwn i'r Llyfrgell Genedlaethol pan fydd wedi cyrraedd pum mil (tipyn o waith eto mae gennyf ofn), fel y bydd at wasanaeth ein cydwladwyr a chyfeillion ein gwlad a'n cenedl sy'n mynnu astudio hynt a thwf y c.p.d. yng Nghymru. Yn ychwanegol i'r casgliad mae yna ar gael gatalog gweddol gynhwysfawr, deunydd



sy'n ymwneud â c.p.d. o safbwynt Cymru'n fwyaf arbennig, llyfrau sy'n ymdrin â c.p.d. ac ambell lyfryddiaeth gan y cyn-gyw-llyfrgellydd bychan!

Beth bynnag am hynny dychwelaf at gardiau post sy'n ymwneud â'r Eisteddfod yn unig.

Byrfoddau

atg. atgynhyrchiad.c.p.d. cerdyn/cardiau post darluniadol. d/g du a gwyn. ll. lliw. m.p. marc post. st. stamp. Cynhwysir pris y prynwyd y c.p.d.

1. Evan Jones, Machynlleth. Gorsedd Beirdd Machynlleth, Mehefin 8fed, 1883; Er mwyn yr hen amser gynt; Nadolig llawen

a blwyddyn newydd dda; d/g; Cyfres Maglona, rhif 10; st; m.p. Rhagfyr 1905; neges; £1.00

2. Gwasanaethau Archifau Gwynedd. Regalia a swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1902, ym Mangor; d/g; rhif 29; atg.

3. Gwasanaeth Archifau Gwynedd. Cylch yr Orsedd ar faes Caernarfon, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1894; d/g; rhif 30; atg.

4. Lloyd Williams, Heol Bangor, Caernarfon. Gorsedd y Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghastell Caernarfon; d/g; £3.50.

5. Astons Cyf. Cadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bae Colwyn, 1910; d/g; st; m.p. Medi 1910; neges; £1.00. (Enillydd y Gadair oedd Robert Williams Parry, Talsarn, Arfon. Ceir manylion ar y c.p.d. am wneuthurwr a chyflwynwr y Gadair. Gwelais g.p.d., un d/g o'r pafiliwn yn yr un Eisteddfod ym 1910, ond methwyd ar gyfle i'w brynu!)

6. 'Pedr Hir; Y Dryw yn curo'r eryr.' Cyhoeddiad Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1913; d/g;

(Parhad ar dudalen 2)

